**Pwyllgor yr Economi,**
**Masnach a Materion Gwledig**
**—**
**Economy, Trade, and**
**Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

16 Mai 2025

Annwyl Rebecca,,

**Adolygiad o gymorth busnes**

Rwyf ar ddeall eich bod wedi sôn, yn ystod cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Glwb Brecwast Caerdydd, eich bod yn bwriadu cynnal adolygiad o'r dirwedd cymorth busnes. Nodaf hefyd eich bod wedi dweud, mewn erthygl ar Business Live, eich bod yn awyddus i archwilio'r mater hwn yn ei gyfanrwydd ac i ddeall sut olwg fyddai ar y system cymorth busnes orau ar gyfer y dyfodol.

Byddwch yn cofio argymhelliad 5 yn adroddiad y Pwyllgor ar Fanc Datblygu Cymru, sef yr argymhelliad a ganlyn: "Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu adolygiad o swyddogaethau Busnes Cymru ac archwilio dichonoldeb a dymunoldeb integreiddio'r swyddogaethau hyn yng nghylch gwaith Banc Datblygu Cymru, a chanolbwyntio ar symleiddio'r cynnig cymorth i fusnesau. Dros y 6-12 mis nesaf, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ystyried y mater hwn, a rhoi sail resymegol glir dros y penderfyniad a wnaed o ganlyniad."

Yn ei hymateb i'r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwnnw mewn egwyddor, a hynny "ar y sail y bydd adolygiadau Busnes Cymru a'r Banc Datblygu yn y dyfodol yn ystyried a oes angen cryfhau'r rhyngwyneb rhwng y gwasanaethau ymhellach a chyfleoedd i integreiddio gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn dal yn agored i'r syniad o archwilio opsiynau tra'n ceisio sicrhau sefydlogrwydd, ansawdd a didueddrwydd darpariaeth gwasanaeth sefydledig."

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r pedair bargen twf dinesig a rhanbarthol yng Nghymru. Byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallem gael rhagor o fanylion am eich cynlluniau ar gyfer adolygu cymorth busnes fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Byddem yn ddiolchgar pe

gallech ddarparu gwybodaeth am eich adolygiad arfaethedig, gan gynnwys manylion cylch gorchwyl yr adolygiad neu gwmpas mwy cyffredinol y gwaith, pwy fydd yn cynnal yr adolygiad, a beth fydd yr amserlen y byddant yn glynu wrthi. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe gallwch gynnwys manylion ynghylch sut y bydd yr adolygiad hwn yn cysylltu ag argymhelliad y Pwyllgor uchod, os o gwbl.

Gan eich bod eisoes wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch adolygiadau o gymorth busnes, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon erbyn 30 Mai. Diolch ymlaen llaw am ddarparu'r wybodaeth hon. Bydd yn ddefnyddiol iawn ar gyfer ein hymchwiliad.

Yn gywir,

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg